# DEDDF RHENTU CARTREFI (FFIOEDD ETC.) (CYMRU) 2019

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 6: Rhoi Cyhoeddusrwydd I Ffioedd Asiantiaid Gosod Eiddo

### *Adran 23 – Rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd asiantiaid gosod eiddo*

106. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio Pennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ("Deddf 2015") i'w gwneud yn ofynnol i asiant gosod eiddo sicrhau bod unrhyw hysbysebwr ar-lein (fel y'i diffinnir) yn rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd penodol y mae'r asiant yn eu codi, i'r graddau y maent yn ymwneud ag anhedd-dai yng Nghymru. Diffinnir y ffioedd o dan sylw yn adran 85 o Ddeddf 2015 ac maent yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy gan landlord neu denant mewn cysylltiad â gwaith asiantaeth gosod eiddo a gwaith rheoli eiddo. Caiff y rheoliadau hefyd ddiwygio Deddf 2015 er mwyn caniatáu i fwy nag un gosb gael ei gosod ar asiant gosod eiddo mewn perthynas â'r un achos o dorri dyletswydd ym Mhennod 3 o Ran 3 o Ddeddf 2015 i'r graddau y mae'r toriad yn ymwneud ag anhedd-dai yng Nghymru.